

At sylw 'r Cynghorydd _____

Trefniadau Athrawon Cyflenwi yn y Sir

Yr wyf yn ysgrifennu atoch fel athro sy'n byw yn eich etholaeth i fynegi fy mhryderon ynghylch bwriad Cyngor Sir _____ i argymhell y defnydd o asiantaeth athrawon i gyflenwi athrawon llanw ar draws y Sir

Mae'r cynnydd yn y defnydd o asiantaethau athrawon ar gyfer darparu athrawon llanw i ysgolion yn fater o bryder o'r mwyaf i fy Undeb, UCAC. Mae'r Undeb wedi bod yn lleisio'r gwrthwynebiad hwn ar sawl lefel yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu i ystyried y ffordd ymlaen.

Mae UCAC yn gwrthwynebu'r defnydd o asiantaethau athrawon gan ysgolion fel mater o egwyddor.

- Mae Adran 44.1 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DdCAAY) yn nodi telerau cyflog ac amodau gwaith statudol ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol neu ysgol a gynhelir. Ni wyddom am un asiantaethau sydd yn talu'r cyflog na darparu yr un telerau i athrawon cyflenwi.
- I ni wybod, nid yw athrawon sydd yn gweithio trwy asiantaeth yn derbyn yr un cyflog ac amodau gwaith ag athrawon eraill sydd yn gweithio yn yr un ysgolion a hwy; mae'r cyflog gan amlaf yn sylweddol is a dyw'r amodau gwaith ddim cystal.
- Nid ydynt yn derbyn yr un hawliau cyflogaeth.
- Nid ydynt yn gallu cael mynediad at y taliadau galwedigaethol a ddarparir gan awdurdodau addysg lleol ac sydd ar gael i athrawon eraill, e.e. cynllun tâl salwch galwedigaethol a chynllun tal mamolaeth galwedigaethol
- Ni all athro sydd yn cyflenwi trwy asiantaeth gyfrannu at y Cynllun Pensiwn Athrawon; nid yn unig yn unig yw hyn yn peryglu gallu'r athrawon i gael incwm digonol wedi ymddeol ond mae hefyd yn peryglu dyfodol y Cynllun i weddill y proffesiwn.
- Yn gyffredinol mae'r elw a wneir gan asiantaethau'n cael ei dalu i berchnogion a/neu gyfranddalwyr y cwmni, sy'n golygu fod llai o arian yn cael ei dalu i athrawon sy'n gweithio i'r asiantaethau. Ym marn UCAC mae hyn yn fodd o breifateiddio'r gyfundrefn addysg, rhywbeth y mae UCAC yn ei wrthwynebu fel mater o egwyddor. Nid yw'r cwmnïau preifat hyn, felly, yn buddsoddi yn system addysg ein gwlad.
- Mae'n debyg bod athrawon cyflenwi'n unigryw yn y gwasanaethau cyhoeddus am eu bod yn cael eu talu llai na'u cymheiriaid â chytundebau parhaol neu dymor hir.
- Deallwn fod yr asiantaethau hyn yn cael anhawster i ddarparu athrawon cyflenwi sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Prin iawn yw'r dystiolaeth o asiantaethau yn hybu a darparu cyfleodd am ddatblygiad proffesiynol.
- Ceir enghreifftiau o athrawon yn cael eu cyflogi fel goruchwylwyr dosbarth ar dâl sydd brin yn uwch na lefel 'cyflog byw', ond am eu bod yn athrawon mae ysgolion weithiau'n disgwyl iddynt wneud mwy na goruchwyllo'r dosbarth.
- Mae gennym bryderon mawr ynglŷn â materion lles a diogelwch athrawon a disgyblion gan ein bod o'r farn nad oes gan asiantaethau gyfundrefnau a pholisïau digonol i ddelio'n deg gyda materion amddiffyn plant a chwynion. Gwyddom am athrawon sydd wedi eu tynnu oddi ar restr asiantaeth yn dilyn honiadau cwbl ddi-sail.

Ym marn UCAC ffug-arbedion a wneir drwy asiantaethau - neu unrhyw gorff arall nad yw'n rhoi mynediad i dâl ac amodau gwaith statudol a theg i athrawon. Mae systemau addysg o safon uchel yn llwyr ddibynnol

ar athrawon o safon uchel; buddsoddi yn y gweithlu drwy gynnig amodau teg yw'r buddsoddiad gorau mewn gwasanaethu cyhoeddus ac mewn cynnal a chodi safonau.

Yn wyneb y dadleuon uchod, a'r ffaith bod Tasglu Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth cyflenwi i'r dyfodol ar gyfer Cymru, pwyswn ar bob Awdurdod Lleol ac ysgol i ymrwymo i beidio gwneud defnydd o wasanaeth asiantaeth. Mae'r tasglu wedi dechrau'r gwaith a wedi cyfarfod ag UCAC a'r undebau eraill i drafod y sefyllfa a'r opsiynau.

Yn gywir